CABINET

Cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd dros fideo gynadledda ddydd Mawrth, 12 Ebrill 2022 am 10.00am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth; Huw Hilditch-Roberts, Aelod Arweiniol Addysg, Gwasanaethau Plant ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd; Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd; Richard Mainon, Aelod Arweiniol Cyfeiriad Strategol a Thrawsnewid; Tony Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau; Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol; a Mark Young, Aelod Arweiniol Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Chymunedau Mwy Diogel.

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Ellie Chard, Meirick Davies, Gwyneth Ellis, Gwyneth Kensler, Alan James, Barry Mellor, Paul Penlington, Rhys Thomas ac Emrys Wynne.

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (GB); Penaethiaid Gwasanaeth: Y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW); Cyllid ac Eiddo (SG); Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (TW), Gwasanaethau Plant (RM) ac Addysg (GD); Rheolwr Prosiect, Gwybodaeth Fusnes (PC); Rheolwr Fflyd (CB); Rheolwr Prosiect, Cynllunio Strategol (LR); Swyddog Arweiniol - Eiddo Corfforaethol a Stoc Dai (DL); Rheolwr Gweithrediadau Eiddo (MC); Swyddog Moderneiddio Addysg (LW); Cydlynydd Busnes: Swyddfa'r Arweinydd (SE) a Gweinyddwyr Pwyllgorau (KEJ, SJ a RTJ [Gweddarlledwr])

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Richard Mainon

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Mark Young gysylltiad personol gydag eitem 8 ar y rhaglen - Prosiect Ysgol Plas Brondyffryn o ran yr hyn sy'n ymwneud ag Ysgol Uwchradd Dinbych gan ei fod yn Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Uwchradd Dinbych.

Datganodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts gysylltiad personol gydag eitem 11 ar y rhaglen - Adroddiad Cyllid o ran yr hyn sy'n ymwneud â Phrosiect Glasdir gan ei fod yn Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Pen Barras.

Datganodd y Cynghorydd Bobby Feeley gysylltiad personol gydag eitem 11 ar y rhaglen - Adroddiad Cyllid o ran yr hyn sy'n ymwneud â Phrosiect Glasdir gan ei fod yn Llywodraethwr Ysgol ar gyfer Ysgol Gynradd Stryd y Rhos.

3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 .

PENDERFYNWYD *derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2022 a'u cadarnhau fel cofnod cywir.*

5 AILFODELU'R GWASANAETHAU GWASTRAFF – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y SEFYLLFA ARIANNOL GAN GYNNWYS ACHOS BUSNES WEDI'I DDIWEDDARU

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones adroddiad yn diweddaru'r Cabinet ar gostau diweddaraf a'r sefyllfa ariannol ar y Prosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer Achos Busnes wedi'i ddiweddaru a dirprwyo awdurdod i swyddogion priodol i alw ar gyllid sydd heb ei neilltuo yn y cynllun cyfalaf os bydd angen.

Tynnodd y Cynghorydd Jones sylw at dryloywder rheolaeth y prosiect a oruchwyliwyd gan y Bwrdd Prosiect Gwastraff ac sy'n destun craffu gyda diweddariadau rheolaidd i'r aelodau. Yn unol â chynlluniau eraill y Cyngor roedd effaith cynnydd mewn costau nwyddau a deunyddiau yn fyd-eang wedi effeithio ar y prosiect, ac roedd hyn y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, ac wedi arwain at gyflwyno Achos Busnes wedi'i ddiweddaru i geisio cymeradwyaeth.

Cyflwynodd Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol rywfaint o gefndir y prosiect a'r gwaith a wnaed ers cymeradwyo'r Achos Busnes gwreiddiol ym mis Rhagfyr 2018. Pwysleisiodd fuddion y model newydd a fydd yn arwain at gynnydd mewn lefelau ailgylchu, ailgylchu o safon uwch, llai o allyriadau carbon a'r gwasanaeth gwastraff yn costio llawer llai na'r model presennol. Roedd safle'r depo ger Ystâd Ddiwydiannol Colomendy a thrwy weithio ar y cyd gyda phedwar o fusnesau lleol i gaffael tir ar gyfer y safle, roedd swyddi lleol wedi'u diogelu a swyddi newydd wedi'u creu. Ond, roedd y datblygiad wedi cymryd mwy o amser na'r disgwyl gydag effaith Covid-19 hefyd yn amharu ar gynnydd.

Y prif newid ers cymeradwyo'r Achos Busnes oedd y cynnydd sylweddol mewn chwyddiant a chostau nwyddau a deunyddiau oherwydd ffactorau byd-eang nad oedd modd eu rhagweld. Roedd yr arian at raid yn y gyllideb gyffredinol wedi'i gynyddu i £2m ym mis Gorffennaf 2019 i ddelio â risgiau / elfennau anhysbys. Ond, oherwydd cynnydd sylweddol yng nghostau nwyddau / deunyddiau yn y deuddeg mis diwethaf, roedd pwysau costau o £3.588m wedi'u nodi ar draws y prosiect. Roedd cais am £1.588m o gyllid ychwanegol ar gyfer y diffyg ariannol wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth. Roedd costau chwyddiant yn parhau i fod yn risg nes bo'r tendrau wedi'u dychwelyd a'r contractau wedi'u dyfarnu. I gydnabod y broblem honno roedd Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid cyfalaf heb ei neilltuo yn ychwanegol i'r 22 o awdurdodau lleol.

Eglurodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill nad oedd y sefyllfa ariannol yn unigryw i'r prosiect gwastraff gyda'r cynnydd mewn costau wedi'i gynnwys mewn nifer o gynlluniau ar draws yr awdurdod. Roedd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i'r prosiect hwn a'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn golygu ar y cam hwn bod y prosiect wedi'i ariannu'n llawn gan alluogi'r contractau gofynnol yn yr wythnosau/misoedd sydd i ddod hyd at gwblhau ac roedd yn cefnogi'r argymhellion. Ychwanegodd y Cynghorydd Brian Jones bod contract y Cyngor gydag United Paper Mills (UPM) Shotton i ailgylchu gwastraff y cartref yn dod i ben yn yr hydref 2023 a fyddai'n debygol o arwain at bwysau ariannol ychwanegol ar y gwasanaeth gwastraff, ac y byddai unrhyw oedi yn y prosiect y tu hwnt i'r hydref 2023 yn arwain at fwy o gostau i'r Cyngor.

Ymatebodd y Cynghorwyr Brian Jones a Julian Thompson-Hill, a Phennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol i'r cwestiynau fel a ganlyn –

- roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau £1.588m o gyllid grant ychwanegol i gynorthwyo i ddiwallu'r pwysau o ran costau gan olygu bod y prosiect wedi'i ariannu'n llawn ar hyn o bryd, ond roedd costau chwyddiant yn parhau i fod yn risg nes y dyfernir y contract.
- darparu sicrwydd bod y prosiect wedi'i ddatblygu cyn gynted â phosibl. Roedd wedi cymryd pymtheg mis yn dilyn cymeradwyaeth yr Achos Busnes gwreiddiol i gaffael y safle oherwydd cymhlethdodau gyda'r gofrestrfa tir a'r wybodaeth dechnolegol ar gyfer manyleb y tendr nad oedd ar gael cyn hynny. Roedd anwadalrwydd y farchnad bresennol yn golygu nad oedd contractwyr yn fodlon dal prisiau tendr a fyddai'n ddilys am wythnosau'n unig.
- mewn ymateb i bryderon y Cynghorydd Barry Mellor o ran y cynnydd mewn costau a'r cais ganddo bod Archwilio Mewnol yn ymchwilio'r Achos Busnes, eglurwyd bod y wybodaeth ar gael i'r aelodau drwy gydol y prosiect, roedd Bwrdd Prosiect Gwastraff wedi monitro cynnydd a chostau, ac roedd gwaith wedi'i gyflawni gyda Rhaglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) a'r Tîm Cyllid gyda llawer o graffu ar elfennau ariannol y prosiect. Ni fyddai problem pe bai Archwilio Mewnol yn ymchwilio'r Achos Busnes os yw hynny'n briodol.
- o ran y tabl cyllid, nid oedd yn arferiad dangos yr arian at raid fel llinell gyllidebol ar wahân gan ei fod yn rhan o'r gost gyffredinol gyda'r holl brosiectau cyfalaf yn cael rhyw lefel o arian at raid yn rhan o'r amlen gyllid.
- roedd maint y prosiect yn sylweddol gyda chyfanswm cost y prosiect yn £19,337,142. Ond, roedd yn darparu isadeiledd gwastraff newydd sbon i wasanaethu'r sir gyfan, gan gynnwys fflyd newydd ar gyfer y gwasanaeth gwastraff, ac roedd dros £11m o gostau'r prosiect wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru - roedd y prosiect wedi'i reoli'n dda a'r cyllid wedi'i graffu a'i reoli cymaint â phosibl.
- roedd gan y Cyngor gofnod llwyddiannus o gwblhau prosiectau cyfalaf mawr o fewn neu'n is na'r amlen gyllid a ddyrannwyd, ond mae'r cynnydd mawr mewn costau dros y deunaw mis diwethaf o ganlyniad i ffactorau allanol nas rhagwelwyd ac sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor wedi effeithio ar nifer o brosiectau presennol, gan gynnwys y prosiect gwastraff, hyd yn oed gyda chynnydd canran bychan o'r costau yn cael effaith sylweddol oherwydd maint y prosiect.

- er nad oedd yn ymwneud â'r adroddiad yn uniongyrchol, nodwyd na fyddai'r ffioedd ailgylchu gwastraff newydd yn golygu bod y preswylwyr yn talu'n ychwanegol am wasanaethau presennol ond byddent yn elwa o wasanaeth gwell lle y gellir derbyn mwy o ddeunyddiau mewn canolfannau ailgylchu am bris is na'r sector preifat. Roedd tipio anghyfreithlon yn broblem genedlaethol (nad yw'n unigryw i Sir Ddinbych) ond roedd gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â'r mater drwy addysg a gorfodi.

Diolchodd y Cynghorydd Bobby Feeley i'r swyddogion am yr adroddiad a'r eglurhad manwl o'r problemau. Tynnodd sylw at bwysigrwydd y prosiect ac ailgylchu ac roedd yn gefnogol ohono ac argymhellion yr adroddiad. Ychwanegodd yr Arweinydd y gellir cymryd sicrwydd o graffu manwl y prosiect a gwaith y Bwrdd Prosiect Gwastraff, gyda chostau wedi cynyddu oherwydd ffactorau y tu hwnt i reolaeth y Cyngor. Croesawyd y cyfle i weithio gyda busnesau lleol i ddiogelu swyddi a hwyluso creu swyddi a thwf economaidd ar y safle hefyd. Nododd y Prif Weithredwr nad oedd y Cyngor yn osgoi mynd i'r afael â phrosiectau mawr a chymhleth ac roedd yn arfer da i adolygu'r Achos Busnes i ailystyried a oedd y prosiect wedi newid dros amser er budd bod yn agored a thryloyw. Mynegodd ei gefnogaeth ar gyfer yr Achos Busnes diwygiedig.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn–*

(a) cydnabod y sefyllfa bresennol o ran costau a'r gyllideb (Atodiad 1 yr adroddiad);

(b) yn cymeradwyo'r Achos Busnes diwygiedig (Atodiad 2 yr adroddiad);

(c) yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro, i alw ar gyllid y cynllun cyfalaf sydd heb ei neilltuo os oes angen oherwydd cynnydd nad oes modd ei reoli mewn costau o ganlyniad i chwyddiant neu broblemau gyda'r gadwyn gyflenwi. Bydd unrhyw alwad am y cyllid hwn yn cael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Cabinet, a

(d) chadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

6 CERBYDAU FFLYD GWASTRAFF NEWYDD 5M – DYFARNU'R CONTRACT

[Cyfeiriodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd at yr atodiadau cyfrinachol am resymau sensitifedd masnachol a chynghori y dylai unrhyw gwestiynau sy'n codi o ran yr elfennau hynny gael eu cyflawni mewn sesiwn breifat].

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad ar y broses a gymerwyd yn ystod yr ymarfer caffael fflyd fel rhan o brosiect ehangach o ran ail-fodelu gwasanaethau gwastraff a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i'r cyflenwr a ffefrir ar gyfer 14 o Gerbydau Adfer Adnoddau newydd 5M (RRV). Roedd dyfarnu contract yn cynnwys 11 cerbyd gwastraff RRV 5M disel a 3 cerbyd gwastraff allyriant isel iawn (ULEV). O ystyried y cyfnodau arweiniol hir ar gyfer yr

RRV 5M mwy ac i sicrhau prisiau'r tendr argymhellwyd bod y penderfyniad yn cael ei weithredu ar unwaith.

Ychwanegodd Pennaeth Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, yn dilyn trafodaeth bellach gyda Llywodraeth Cymru, y cytunwyd i gynyddu nifer y cerbydau gwastraff ULEV o 2 i 3 a fyddai'n lleihau allyriadau'r fflyd ymhellach ac yn cynrychioli newid sylweddol i sut yr oedd y gwasanaeth yn gweithredu. Pwysleisiodd y Cynghorydd Jones bod angen lansio'r model gwastraff newydd yn yr hydref 2023 i osgoi pwysau ariannol pellach ar y gwasanaeth yn dilyn terfyn y contract presennol gydag United Paper Mills.

Roedd y Cabinet yn cefnogi'r camau i leihau allyriadau carbon y fflyd ac wedi trafod dibynadwyedd / cadernid y cerbydau gwastraff ULEV gyda swyddogion i ddiwallu anghenion yr awdurdod a'r ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol ynghyd â'r amseroedd arwain i ddiwallu terfynau amser cyflenwi. Ymatebodd y swyddogion–

- bod gwaith wedi'i gyflawni ar hyfywedd y cerbydau ULEV a'u cyfyngiadau ar lwybrau gwahanol, amodau ac ati, ac roedd hyder y byddant yn diwallu ymrwymiadau'r gwasanaeth - roedd unrhyw risg o ran hynny wedi'i liniaru trwy gyflwyno nifer fechan i'r fflyd ar y pwynt hwn a'r bwriad oedd cyflwyno mwy o gerbydau ULEV dros amser; roedd yn debygol pan fyddai'r cerbydau disel yn cyrraedd diwedd oes y byddai'n ofynnol eu disodli gyda cherbydau heb allyriadau, a dyna'r rheswm dros gyflwyno'r rhain fesul cam er mwyn rheoli risg.
- roedd y Tîm Cynnal a Chadw wedi derbyn hyfforddiant i gynnal a chadw cerbydau trydan a oedd yn darparu cyfleoedd posibl ar gyfer y gwasanaeth fflyd i gyd-weithio yn y dyfodol. Roedd yr Uned Cynnal a Chadw ym Modelwyddan ar ffurf garej masnachol a gobeithir y byddai'r newid yn darparu buddion hirdymor i'r gymuned fusnes yn lleol a'r fflyd fewnol.
- disgwylir y byddai'r amser arweiniol eithaf hir yn darparu'r cyfle i gomisiynu'r cerbydau a darparu'r hyfforddiant gofynnol i'r staff newydd yn barod i gyflwyno ffordd newydd o weithio –yn amodol ar beidio ag wynebu problemau sylweddol yn y diwydiant, dylai'r cyflenwyr allu cyflwyno'r cerbydau mewn oddeutu blwyddyn er mwyn gallu cyflwyno'r model gwastraff newydd erbyn yr hydref 2023.

Gwahoddodd yr Arweinydd ragor o gwestiynau gan aelodau heb fod yn aelodau o'r Cabinet ac ymatebodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion i'r pwyntiau canlynol a godwyd–

- roedd gwastraff y cartref na ellir ei ailgylchu yn cael ei brosesu ym Mharc Adfer, Glannau Dyfrdwy, fel rhan o drefniant ar y cyd gyda phum awdurdod Gogledd Cymru tra bo gwastraff y cartref y gellir ei ailgylchu yn cael ei brosesu yn United Paper Mills, Shotton.
- roedd y rhesymau a roddwyd pam fod cerbydau trydan yn ddrytach na cherbydau disel yn cynnwys cost y batri o gymharu ag injan tanio mewnol, yr ymchwil a chostau datblygu technoleg newydd sy'n cael ei dalu ar y dechrau fel arfer, a grymoedd y farchnad.
- eglurwyd y rhesymeg dros y penderfyniad i gael cerbydau cwbl drydanol. Er bod cerbydau hybrid llai ar gael roedd y Cyngor wedi dewis cerbydau trydan er mwyn gwneud y mwyaf o leihau allyriadau carbon gan fod cerbydau trydan yn

ddigonol o ran maint, gwefru, ac ystod i ddiwallu gofynion dyddiol. Nid oedd dewisiadau hybrid ar gael ar gyfer y cerbydau mwy ac er bod rhai cerbydau sy'n rhedeg ar hydrogen, roeddent yn ddrud iawn a roedd y prisiau'n afresymol.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn–*

(a) cymeradwyo dyfarnu contract i'r cyflenwr a ffefrir ar gyfer 11 RRV disel 5M a 3 x RRV ULEV 5M am gyfanswm o £2,712,231. Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn ariannu £2,217,231 gyda Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £495,000 i brynu'r 3 cerbyd ULEV (Atodiad 1 yr adroddiad);

(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, ac

(c) yn cymeradwyo gweithrediad y penderfyniad ar unwaith o ystyried y cyfnod arweiniol hir ar yr RRV 5M mwy a (cyn bwysiced) i sicrhau prisiau'r tendr o ystyried ansicrwydd y farchnad a chwyddiant prisiau a allai olygu bod prisiau'r rhai sy'n cyflwyno tendr yn cael eu tynnu'n ôl yn fyr rybudd.

7 CAM 2 GORSAF TROSGLWYDDO GWASTRAFF, DYFARNU CONTRACT COLOMENDY DRWY BENDERFYNIAD WEDI'I DDIRPRWYO

Cyflwynodd y Cynghorydd Brian Jones yr adroddiad am Gam 2 datblygiad Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff newydd CSDd a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddyfarnu contract i'r contractwr a ffefrir drwy benderfyniad wedi'i ddirprwyo.

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo'r ymarfer tendro ar gyfer Cam 2 ym mis Hydref 2021 ac roedd yr adroddiad yn nodi'r gwaith a wnaed o ran y broses dendro hyd yma a Gwaith Galluogi Cam 1 a ddarparwyd mewn cydweithrediad â phedwar busnes ar Ystâd Ddiwydiannol Colomendy a gwblhawyd ym mis Mawrth 2022. Roedd y tendr yn seiliedig ar bwysoliad o 60% pris a 40% ansawdd gyda rhagamcan o werth cyn derbyn tendr o £5.25m. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendr oedd 4 Mai 2022 ac yna byddai ymarfer gwerthuso'n cael ei gyflawni i benderfynu ar y contractwr a ffefrir i gyflawni Cam 2. Yn absenoldeb Cabinet ym mis Mai ac er mwyn symud ymlaen â'r prosiect ac osgoi pwysau pellach o ran costau argymhellwyd bod y contract yn cael ei ddyfarnu drwy benderfyniad wedi'i ddirprwyo, ar yr amod bod cynnig y contractwr a ffefrir o fewn yr amlen fforddiadwyedd ar gyfer y gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Tony Thomas darparodd y swyddogion sicrwydd y bu gweithio agos gyda Gwasanaethau Cefn Gwlad a'r Tîm Bioamrywiaeth ers dechrau'r prosiect er mwyn sicrhau bod unrhyw effaith o ran y datblygiad yn cael ei leihau a'i reoli mewn perthynas â bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

Ar y pwynt hwn diolchodd y Cynghorydd Brian Jones i'r swyddogion sy'n gweithio ar y prosiect gwastraff gan gyfeirio'n benodol at y Rheolwr Prosiect, yn enwedig o ystyried y cymhlethdodau a'r heriau sydd wedi codi. Ar ran y Cabinet, ychwanegodd yr Arweinydd ei ddiolch gan dynnu sylw at fuddion y prosiect i'r preswylwyr yn hirdymor.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn–*

(a) cymeradwyo dyfarnu'r contract i'r contractwr a ffefrir drwy benderfyniad wedi'i ddirprwyo gan y Prif Weithredwr (mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Adran 151 a'r Swyddog Monitro) ar ddiwedd y broses dendro, ar yr amod bod cynnig y Contractwr o fewn yr amlen fforddiadwyedd ar gyfer y gwaith. Disgwylir y bydd y penderfyniad wedi'i ddirprwyo yn cael ei wneud ar, neu ar ôl, 5 Mai 2022;

(b) cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau, a

(c) bod y penderfyniad wedi'i ddirprwyo yn cael ei weithredu ar unwaith oherwydd y pwysau o ran amser i symud ymlaen â'r rhaglen a dyfarnu Contract er mwyn dechrau ar Gam 2 ar y safle cyn gynted â phosibl i wneud y mwyaf o'r amodau ffafriol ar gyfer adeiladu dros yr haf a lliniaru'r risgiau o ran anwadalrwydd y farchnad a phwysau o ran costau.

8 PROSIECT YSGOL PLAS BRONDYFFRYN – CYNNIG I YMGYNGHORI'N FFURFIOL YNGHYLCH TREFNIADAETH YR YSGOL A'R ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL DRAFFT

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts adroddiad yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gyflwyno Achos Amlinellol Strategol ar gyfer prosiect Ysgol Plas Brondyffryn i Lywodraeth Cymru a dechrau ymgynghori ar gynigion trefniadaeth ysgolion i gynyddu'r capasiti o 116 i 220.

Roedd y Prosiect yn rhan o Raglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu Llywodraeth Cymru (Band B) a gymeradwywyd ym mis Medi 2020. Ar hyn o bryd roedd yr ysgol yn darparu darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion gydag awtistiaeth rhwng 3-19 oed ar draws pedwar safle yn Ninbych. Y cynnig oedd uno'r holl safleoedd gyda'i gilydd mewn adeilad pwrpasol mewn cae wrth ymyl Canolfan Hamdden Dinbych (sy'n cael ei ddefnyddio gan Ysgol Uwchradd Dinbych ar hyn o bryd) ac i gynyddu capasiti'r ysgol gan fod y galw am y lleoedd hyn wedi cynyddu. Roedd y rhesymeg dros y cynnydd mewn galw a ragwelir a'r problemau capasiti presennol wedi'u nodi ac fe dynnwyd sylw at y pwysigrwydd i ddiwallu'r galw ac anghenion dysgwyr, gyda'r sefyllfa bresennol hefyd yn her i'r athrawon a'r dysgwyr eraill mewn ysgolion ar draws y sir. Cyfeiriwyd hefyd at yr ymgynghoriad a'r ymgysylltu a wnaed gyda budd-ddeiliaid, adrannau ac aelodau lleol o ran cynigion y prosiect a sut y byddant yn cael eu datblygu.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth a ddilynodd -

- roedd capasiti o 220 wedi'i ystyried fel maint realistig ar gyfer yr ysgol i ddiwallu'r cynnydd a ragwelir ac fe roddir blaenoriaeth i ddisgyblion Sir Ddinbych
- codwyd pryderon dros nifer y disgyblion sy'n aros i gael eu hasesu ac roedd y Cyngor mewn trafodaethau rheolaidd gyda chydweithwyr iechyd o ran hynny
- Canmolodd y Cynghorydd Mark Young y prosiect a diolch i'r swyddogion am yr ymweliad safle gan nodi bod cyfathrebu yn fater allweddol yn y broses

- roedd caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect yn broses ar wahân, sy'n annibynnol o'r Cabinet, ac roedd yn fater i'r Pwyllgor Cynllunio ei benderfynu ar seiliau cynllunio.
- byddai'r adeilad yn cael ei ddylunio mewn modd y byddai'n gallu adeiladu estyniad i'r ysgol yn y dyfodol os bydd angen er mwyn diwallu cynnydd pellach mewn galw
- cyfeiriwyd at yr ysgol fel ysgol cyfrwng Saesneg gyda mwyafrif y disgyblion yn dod o aelwydydd sy'n siarad Saesneg. Ond nid oedd dynodiad ar gyfer ysgolion arbennig o ran darpariaeth iaith ac roedd addysg yn cael ei ddarparu yn y Gymraeg ar gais - derbyniwyd y gellir newid y geiriau yn yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg i adlewyrchu bod yr ysgol yn darparu addysg yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer y disgyblion yn eu hiaith a ffefrir.

Cydnabu'r Cabinet bwysigrwydd y prosiect a chefnogi'r argymhellion yn llawn er mwyn sicrhau ei gyflwyno cyn gynted â phosibl.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn–*

(a) cymeradwyo symud ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol ar gynnig i gynyddu'r capasiti o 116 i 220;

(b) cymeradwyo cyflwyno'r Achos Amlinellol Strategol i'w ystyried gan Lywodraeth Cymru, ac

(c) yn cadarnhau eu bod wedi darllen, deall ac wedi ystyried yr Asesiadau o Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

9 TREFNIADAU CYDWEITHIO CENEDLAETHOL AR GYFER GWASANAETHAU MABWYSIADU A MAETHU CYMRU (AWDURDOD LLEOL)

Cyflwynodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts yr adroddiad ar drefniadau cydweithio cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu a Maethu a cheisio cytundeb y Cabinet i lofnodi Cytundeb Cyfreithiol Cyd-bwyllgor ar gyfer y Cyd-bwyllgor arfaethedig.

Roedd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (NAS) wedi bod mewn bodolaeth ers 2014 ac wedi galluogi newid sylweddol a gwelliant mewn gwasanaethau mabwysiadu ledled Cymru. Roedd cynigion wedi'u datblygu drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i ymestyn strwythur llywodraethu'r NAS i gynnwys ymagwedd genedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu penodol drwy Faethu Cymru. Roedd Cytundeb Cyfreithiol ar y cyd wedi'i ddrafftio i'w lofnodi gan y 22 o awdurdodau lleol. Roedd y cytundeb yn cynnwys cynllun dirprwyo ffurfiol gyda Chyd-bwyllgor yn darparu mecanwaith i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflawni rôl weithredol a goruchwyliol ar gyfer NAS a Maethu Cymru. Gofynnwyd i bob awdurdod lleol enwebu aelod o'u Pwyllgor Gweithredol / Cabinet i fod yn aelod â phleidlais ar y Cyd-bwyllgor.

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Plant gyd-destun pellach i'r adroddiad a buddion bod Maethu Cymru yn cynyddu capasiti cefnogaeth a denu mwy o ofalwyr maeth i awdurdodau lleol gan alluogi cadw mwy o blant yn eu cymunedau.

Nodwyd y byddai'r Arweinydd yn enwebu cynrychiolydd o'r Cabinet ar y Cyd-bwyllgor ar ôl etholiadau lleol mis Mai.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn–*

(a) mabwysiadu'r cynigion ar gyfer datblygu trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol Cymru, wrth iddo dderbyn cyfrifoldeb ar gyfer Maethu Cymru;

(b) cadarnhau eu cefnogaeth ar gyfer Cytundeb Cyd-bwyllgor ar gyfer y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru a chytuno bod yr awdurdod yn llofnodi'r cytundeb;

(c) yn enwebu eu cynrychiolydd ar y Cyd-bwyllgor, a

(d) bod datblygiad y dull cenedlaethol, dirprwyaeth gysylltiol ar gyfer llywodraethu, a threfniadau craffu lleol yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyngor Llawn.

10 FFRAMWAITH CYNNAL A CHADW RHAGWEITHIOL (MÂN WAITH) – YSGOLION AC EIDDO NAD YDYNT YN YSGOLION

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad ar ganlyniad yr ymarfer caffael i sefydlu Fframwaith Cynnal a Chadw Rhagweithiol ar gyfer gwaith ar stoc adeiladau corfforaethol y Cyngor ac yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i benodi contractwyr a argymhellir i lotiau'r fframwaith.

Roedd y Cabinet wedi cymeradwyo ymarfer ail-dendro ar gyfer Fframwaith Cynnal a Chadw Rhagweithiol ym mis Mai 2021 y gellir ei ddefnyddio i benodi contractwyr i ymgymryd â gwaith rhagweithiol / mân o dan £10 mil. Roedd y tendr wedi'i rannu i 6 lot yn ôl rhanbarth a math o waith fel y nodwyd yn yr adroddiad ynghyd â manylion monitro perfformiad gweithrediad y fframwaith. Roedd y fframwaith arfaethedig yn sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth caffael a Rheolau'r Weithdrefn Gontractau tra'n symleiddio penodi contractwyr sydd wedi'u cymeradwyo drwy broses gystadleuol. Roedd yr holl gontractwyr a fyddai'n cael eu penodi ar y fframwaith wedi'u lleoli yn Sir Ddinbych ac yn rhai yr oedd y Cyngor wedi gweithio â nhw'n flaenorol.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn–*

(a) cymeradwyo penodi'r contractwyr a argymhellir i lotiau'r Fframwaith fel y nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a

(b) chadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 4 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.

11 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb fel yr amlinellir isod -

- y gyllideb refeniw net ar gyfer 2021/22 oedd £216.818 miliwn (£208.302 miliwn yn 2020/21).
- rhagwelwyd tanwariant o £0.386m ar gyfer cyllidebau gwasanaeth a chorfforaethol (rhagwelwyd £1.533m o danwariant fis diwethaf) gyda'r newid yn bennaf oherwydd cynnydd untro yn y Grant Cynnal Refeniw ar gyfer 2021/22 o £60m (cyfran CSDd £1.994m) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru gyda chais bod £10m (cyfran CSDd £0.332m) yn cael ei ddefnyddio i ariannu gwelliannau i drefniadau teithio ar gyfer gweithwyr gofal gan gynnwys cerbydau trydan; byddai'r £1.662m sy'n weddill yn cael ei roi mewn Cronfa Wrth Gefn Lliniaru'r Gyllideb i gynorthwyo'r Cyngor i ymdopi gyda phwysau chwyddiant.
- manylion arbedion ac arbedion effeithlonrwydd y cytunwyd arnynt gwerth £2.666 miliwn yn ymwneud â ffioedd a chostau, arbedion gweithredol, newidiadau i ddarpariaeth gwasanaeth ac ysgolion.
- tynnwyd sylw at y risgiau a'r tybiaethau presennol yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol, cyllidebau corfforaethol ac ysgolion ynghyd ag effaith ariannol y coronafeirws a'r sefyllfa o ran ceisiadau ariannol i Lywodraeth Cymru, a
- rhoddwyd diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai, Rheoli'r Trysorlys a'r Cynllun Cyfalaf a chafwyd diweddariad ar brosiectau mawr.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Meirick Davies at Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Prosiect Glasdir a holi a oedd y gwaith i greu iard ysgol ychwanegol wedi bod mewn ymateb i broblemau y tynnwyd sylw atynt yn y wasg. Eglurodd y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts nad oedd adroddiadau'r wasg yn adlewyrchu'r sefyllfa'n deg a gofyn bod ei ymateb yn cael ei gofnodi. Eglurodd sut yr oedd cynrychiolwyr pob ysgol wedi'u penodi i weithio gyda'r Tîm Prosiect ac wedi diwygio cynlluniau i sicrhau eu bod yn ymarferol ar gyfer addysgu. Ond, roedd Ysgol Pen Barras hefyd wedi newid dyluniad yr iard i fod yn ardal ymarferol a gwastad. Pan gymeradwywyd yr ysgolion roedd yr arwynebedd fesul disgybl yn fwy yn Ysgol Stryd y Rhos o gymharu ag Ysgol Pen Barras ond roedd ar wair ac yn fwdlyd ac nid oedd yn ofod ymarferol i chwarae. O ganlyniad, gwnaed gwaith i adeiladu iard ychwanegol i ddarparu gofod ymarferol ar gyfer Ysgol Stryd y Rhos a oedd wedi costio llai na'r rhagamcan a nodwyd cyn cyflwyno tendr ac roedd wedi'i ariannu o'r dyraniad cyffredinol i brosiectau ysgolion Rhuthun. Roedd y cyfarpar ar safle Ysgol Pen Barras wedi'i ariannu gan eu Cymdeithas Rhieni ac Athrawon, nid yr awdurdod lleol, ac felly roedd gwriant fesul disgybl ar yr ysgol newydd a rennir yn gyfartal. O ystyried cwestiwn pellach ar Gynllun Amddiffyn Arfordir Dwyrain y Rhyl eglurwyd bod y cyfeiriadau yn y wasg yn cyfeirio at gynllun gwahanol oedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2021/22 a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllido y cytunwyd arni.*

12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet i'w hystyried.

Eglurodd Pennaeth y Gyfraith, AD a Gwasanaethau Democrataidd bod Cabinet ychwanegol wedi'i drefnu dros dro ar gyfer 28 Mehefin i sicrhau bod digon o amser ar gyfer adroddiadau gan nad yw'r Cabinet yn cyfarfod ym mis Mai.

PENDERFYNWYD *nodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.*

Gan mai dyma gyfarfod Cabinet olaf tymor presennol y Cyngor, bu i'r Arweinydd gymryd y cyfle i ddiolch i'r holl aelodau am eu cefnogaeth, cyfraniadau a'u gwaith caled ar y cyd dros y pum mlynedd diwethaf er budd y preswylwyr. Roedd yn teimlo fod gan Sir Ddinbych y sylfeini i ddiwallu heriau yn y dyfodol. Diolchodd i'r swyddogion am eu gwasanaeth gwerthfawr, yn enwedig yn ystod pandemig y coronafeirws ac o dan amgylchiadau anodd iawn. Yn olaf, diolchodd yr Arweinydd i'r Prif Weithredwr am ei waith caled a dymuno'n dda i'r staff ar gyfer tymor nesaf y Cyngor a phob dymuniad da i'r ymgeiswyr yn yr etholiadau. Bu i'r Prif Weithredwr ddiolch i'r Arweinydd, y Cabinet a'r holl aelodau am eu cefnogaeth a'u gwaith caled. Roedd yr aelodau eraill yn ategu at y diolchiadau gan gyfeirio'n arbennig at y cynghorwyr nad oeddent yn sefyll yn yr etholiad, gyda phob dymuniad da iddynt ar gyfer y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.10 pm.